Heddwch
NEWYDDION GWEITHREDU
cylchgrawn CND Cymru
Haf 1995
25c

# Hau Hadau Byd Di-niwclear?

## Cynhadledd Adolygu'r Cytundeb Atal Lledaenu Niwclear 1995

Ar yr olwg gyntaf, ymddengys adnewyddu'r Cytundeb Atal Lledaenu am gyfnod amhenodol drwy "gymeradwyaeth gyffredinol" fel buddugoliaeth i'r gwladwriaethau arfau niwclear (GANau) sydd am gadw'r status quo niwclear, gan drechu dymuniadau'r gwledydd a'r grwpiau hynny, fel CND Cymru, a fu'n dadlau dros estyniadau cyfyngedig, mesurau diogelwch cryfach, a chamau pendant tuag at ddiarfogi niwclear.

Fodd bynnag, mae sawl agwedd bositif i ganlyniadau'r gynhadledd:

- Gorfu i'r GANau wneud nifer o gonsesiynau a derbyn datganiad o egwyddorion y cytunwyd arno yn eu hymrwymo i "ymgeisio'n bendant ... yn systematig a blaengar i leihau nifer arfau niwclear ledled y byd, gyda'r nod derfynol o ddileu'r arfau hynny".
- Mae amcanion ffurfiol eraill yn awr yn cynnwys Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr erbyn diwedd 1996, confensiwn "yn fuan" i wahardd cynhyrchu defnyddiau ymholltus ar gyfer arfau, a sefydlu cylchfa'n rhydd o arfau niwclear yn y Dwyrain Canol.
- Yn anffodus, y mae trosglwyddo technoleg niwclear "heddychlon" yn "ddilyffethair a dethol" yn amcan hefyd.

Er bod y Cytundeb wedi ei ymestyn am gyfnod amhenodol, bydd y cynadleddau adolygu bob pum mlynedd yn parhau ac, yn bwysig iawn, atgyfnerthwyd y broses adolygu drwy ychwanegu pwyllgorau adolygu blynyddol i gadw llygad ar y broses ddiarfogi. Bydd hyn yn cynyddu'r pwysau ar y GANau i gydymffurfio ag ysbryd yn ogystal â llythyren y Cytundeb. Bydd CND Cymru yn parhau i arwylio ymateb y llywodraeth i'r hyn a gytunwyd yn y Gynhadledd.

*Dave Andrews*

- *Mwy tu fewn: "Gwnaiff Unrhyw Hen Ddeunydd Ymholltus y Tro!"*




OK GORE, MI RIFA'I I DDEG AC FE ROWN NI NHW I LAWR I GYD, CYN I BAWB ARALL YMUNO MEWN A GWNEUD I BETHE'N FYND DROS BEN LLESTRI."

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

Produced by Pia 01222 222782.

# NEWYDDION YMGYRCH

## Môr Iwerddon – ymbelydredd neu gadwraeth?

Mae dwy ran o arfordir gorllewinol Cymru o dan ystyriaeth gan y llywodraeth i fod yn rhan o Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) bosibl, sef Penrhyn Llŷn a'r Sarnau, Bae Ceredigion, sydd yn cynnwys aberoedd afonydd Mawddach, Dyfi a Theifi. Bydd safleoedd o'r fath yn ffurfio rhwydwaith o ardaloedd natur o bwys rhyngwladol yn yr Undeb Ewropeaidd a adawaenir fel "Natura 2000".

**HEDDWEITHREDU:** *Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ceisio barn y cyhoedd: dyddiad cau, 22ain Mehefin 1995. Ysgrifennwch, da chi, gan bwysleisio'r pwyntiau a ganlyn, ac ychwanegu eich rhai eich hun:*

- *mae'r ddwy ardal hon wedi eu llygru gan Sellafield, Trawsfynydd a'r Wylfa*
- *cludir defnyddiau niwclear yn ôl ac ymlaen yn rheolaidd ar Fôr Iwerddon – gyda'r bygythiad beunyddiol o ddamwain*
- *mae llongau tanfor niwclear ar wyliadwraeth ym Môr Iwerddon*
- *mae awyrennau milwrol sydd yn hedfan yn isel yn llygru'r ardaloedd hyn a'u hallyriant a'u sŵn*
- *mae gorsaf brawf Aberporth yn tarfu ar fywyd gwyllt ac yn llygru Bae Ceredigion*

Byddai unrhyw gydnabyddiaeth ystyrlon o werth amgylcheddol yr ardaloedd hyn yn golygu atal yr holl weithgareddau hyn yn llwyr. Dylid gwneud y llygrwyr – y Weinyddiaeth Amddiffyn, Nuclear Electric a BNFL yn gyfrifol am lanhau'r llygredd y maent hwy wedi ei greu.

Cyfeiriwch eich llythyr at: *Cyfeireb Cynefinau Ewropeaidd – Natura 2000, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Plas Penrhos, Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd LL57 2LQ.*

## Yma o hyd ym Môr Iwerddon – Arsenic a Hen Nwy Nerfau

Taflwyd llwyth syfrdanol o 25,000 tunnell o arfau cemegol a 300 tunnell o bowdr arsenic i Fôr Iwerddon ddeugain mlynedd yn ôl gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Ni chadwyd llygad arnynt, ond dywed gweinidog y lluoedd arfog, Nicholas Soames "nad yw safleoedd gwastraff o'r fath yn ddim bygythiad o bwys i iechyd pobl neu'r amgylchedd morol" er gwaethaf y ffaith i ddamwain yn ystod y broses o daflu'r deunydd olygu yr archwiliwyd samplau gwaed pawb, milwrol a sifil, a gymerodd ran yn y gweithgaredd.

Erys dau gwestiwn: sut y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn llwyddo i daflu'r fath sbwriel marwol lle mynno heb orfod ateb i neb, a ble arall y gwnaed hyn? Chwedl Merseywatch, grŵp amgylchedd sy'n canolbwyntio ar lygredd, dyma enghraifft arall o'r hyn y gwyddem ers tro, sef bod y llywodraeth a diwydiant yn ystyried Môr Iwerddon fel tomen sbwriel ar gyfer gwastraff peryglus na fyn neb arall ei dderbyn.

## Gorsaf Ynni Niwclear Hinkley Point

Mae'r Arolygaeth Sefydliadau Niwclear wedi cyhoeddi nad oes unrhyw ffactorau diogelwch i atal Hinkley Point A rhag dal i gynhyrchu trydan nes ei bod yn 40 mlwydd oed. Roedd yr orsaf, a ddyluniwyd i bara 20 mlynedd, yn 30 oed ddiwedd mis Mawrth. Mae Nuclear Electric ei hun wedi derbyn na ellir byth dalu costau anferth dadgomisiynu, ailbrosesu a rheoli gwastraff y gorsafoedd Magnox o'r incwm a wneir o gynhyrchu trydan; eto, pan wnaeth yr Arolygwyr eu cyhoeddiad, awgrymwyd gan Nuclear Electric bod trydan o Hinkley A yn rhad iawn bellach gan y talwyd am ei holl gostau buddsoddi!

## Dydd Chernobyl – 26ain Ebrill 1995

Ymunodd CND Cymru â chyfeillion o Wlad yr Haf a grwpiau eraill sy'n poeni am yr amgylchedd i goffau'r ddamwain yn Chernobyl, i atgoffa gweithwyr niwclear am berygl eu gwaith, a galw sylw at yr "arbrawf" o estyn bywyd Hinkley A am 10 mlynedd arall.

Darluniwyd y peryglon ofnadwy mewn modd teimladwy gan 12 ffotograff mawr iawn o rai o'r plant a ddioddefodd yn namwain Chernobyl. Caewyd y gwaith yn symbolaidd â rhuban du, ac ymddangosai fel pe bai'r wylnos ddistaw wedi cyffwrdd â chalonnau llawer o gynrychiolwyr y wasg a ddaethai yno, a'r heddlu. Rhaid oedd i'r gweithwyr niwclear a newidiodd shifft yn ystod y gwrthdystiad, gerdded yn araf heibio i'n harddangosfa.

## Prosiect Plant Cherbobyl – cymorth meddygol i Belarus o Iwerddon

Tra'r oeddem yn gwrthdystio y tu allan i Hinkley, cyrhaeddodd dirprwyaeth yn dwyn cymorth meddygol oddi wrth Brosiect Plant Chernobyl yn Iwerddon gartref plant amddifad ger Minsk. Yn ôl Michael Heggarty, peiriannydd gyda Telecom Eire, roedd y cartref neilltuol yr ymwelodd ag ef ynghudd allan yn y wlad. Ni wyddai hyd yn oed y trigolion lleol ble'r ydoedd. Nid oes dim byd yno i'r plant, dim i'w hysgogi, dim teganau addysgiadol neu adnoddau meddygol er gwaethaf y ffaith bod llawer o'r plant yn marw o'u salwch. Pan oedd Michael yn y cartref,




daethpwyd â phedwar baban i mewn, bob un â nam cydenedigol. Dywedodd wrthym yr hoffai gasglu teganau addysgiadol i'r plant a lluniau i'r waliau (mae rhai plant yn gaeth i'w gwelyau yn barhaol, heb ddim i edrych arno hyd yn oed). Prin y gall y staff ymdopi. Mae gan y teulu y bu Michael yn aros gyda hwy ym Minsk ddwy ferch, y naill yn 18 a'r llall yn 14 oed. Mae gan yr ieuengaf gancr y thyroid – canlyniad uniongyrchol yr iodin ymbelydrol a ddihangodd o Chernobyl. Ni ddisgwylir y bydd byw am hir. Deuir â hi i Iwerddon ym mis Mehefin fel rhan o raglen seibiant y Prosiect. Mae cymaint o waith i'w wneud.

## Apêl Chernobyl CND Cymru

Mynydd Wyddfa o ddiolch i bawb a ddanfonodd arian atom ar gyfer menter CND Cymru i fynd ag ambiwlans a chymorth i Belarus ym mis Medi. Rydym yn dal i edrych am fen Ford Transit diesel i'w addasu'n ambiwlans neu fws mini Ford Transit diesel i'w roi i gartref plant Amddifad yn Belarus, megus hwnnw a ddisgrifir uchod, neu i ysbyty lle mae adnoddau yr un mor brin. Os gwyddoch am fen neu fws mini y gallem ei brynu'n rhad neu dderbyn fel rhodd, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosib, da chi.

Y rhan bwysicaf o'r gwaith a wnawn ar gyfer y Prosiect yw gwneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'r ddamwain ("y drychineb amgylcheddol waethaf erioed", chwedl y Cenhedloedd Unedig) a sicrhau na chaiff damwain niwclear arall ddigwydd unrhyw le. Cawsom slot ar raglen "Grassroots" HTV ar y 27ain o Ebrill. Gyda'r cyhoeddiad y bwriedir preifateiddio'r diwydiant niwclear, efallai y bydd unrhyw son am Chernobyl a realaeth y dechnoleg yn ennyn mwy o ddiddordeb. Os carech fwy o fanylion am y ddamwain, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

## DIOLCH, DIOCH, DIOCH O GALON

... Côr Cochion Caerdydd a ganodd yng nghanol dinas Caerdydd am sawl wythnos a chodi o leiaf #1,000 ar gyfer y prosiect, a digon o ymwybyddiaeth o'r sefyllfa. Maent wedi bod o gymorth sylfaenol i ni.

... CND Aberystwyth a phlant o gylch Aberystwyth a gymerodd ran mewn




Cyngerdd Plant yng Nghanolfan Gelfyddydau Aberystwyth i godi arian i'r prosiect.

... CND Llandrindod a redodd stondin godi arian ac arddangosfa ar gyfer Plant Chernobyl ar gomin Llandrindod.

... CND Abertawe a gododd 250 drwy gynnal diwrnod baneri yng nghanol y ddinas (maent wedi bwcio'r hawl i gynnal diwrnod baneri ar gyfer dioddefwyr Chernobyl hyd ddiwedd y mileniwm).

... yr holl unigolion hynny sydd yn helpu i drefnu digwyddiadau.

**HEDDWEITHREDU:**
*Os carech gyfrannu arian i'r prosiect, os oes gennych syniadau codi arian, os carech fenthyca arddangosfa am gyflwr y plant, am wybod mwy, neu os gwyddoch am fen new fws mini Ford Transit diesel (neu ambiwlans) i ni, cysylltwch â Jill Stallard, os gwelwch yn dda. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i "Prosiect Plant Chernobyl".*

## Taith Gerdded Noddedig i Blant Chernobyl A thros Fôr Iwerddon Di-niwclear

Ar y 29ain Mehefin bydd Ray, Wendy, Tad, a'r bychan Newt yn cychwyn eu taith gerdded o gwmpas sir Benfro. Danfonwn ein cariad a'n dymuniadau gorau gyda hwy.

**HEDDWEITHREDU**
*Os nad ydych eisoes wedi noddi Ray a'i deulu, neu wedi danfon cyfraniad atynt, neu os hoffech gwrdd â hwy ar eu taith, cysylltwch â hwy yn 58 School Street, Llanbradach, Morgannwg Ganol CF8 3LE (01222) 889514. Sieciau'n daladwy fel yr uchod.*

## Gwastraff ymbelydrol mewn safleoedd tir-lenwi

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn Wrecsam, datgelwyd yr ystyrir dau safle ger y dref – yn Hafod a Phenybont – yn safleoedd tir-lewni blaenllaw ar gyfer gwastraff ymbelydrol lefel-isel. Dywedodd Hugh Richards o Gynghrair Wrth-niwclear Cymru wrth y cyfarfod: "Teimlwn bellach bod llawer i'w ofni oherwydd yr ydym yn wynebu cynnydd 60-gwaith mewn gwastraff niwclear yn y degawd nesaf, i raddau helaeth oherwydd dadgomisiynu gorsafoedd niwclear ... y pryder gwirioneddol yw yr â gwastraff ymbelydrol lefel-isel ble bynnag y penderfyna'r llywodraeth, p'run ai bod perchen safle neilltuol am iddo fod yno ai peidio, heb fod dim y gellir ei wneud." Dywedodd llefarydd ar ran y Swyddfa Gymreig y penderfynir lle y ceir gwared â gwastraff ymbelydrol lefel-isel yn ddiweddarach eleni.

**HEDDWEITHREDU**
*Gallwn atal y lol yma!*
*Ysgrifennwch at John Redwood, Y Swyddfa Gymreig, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NQ. Dywedwch wrtho sut yr ydych chi'n teimlo ynglŷn a gosod gwastraff ymbelydrol mewn safleoedd tir-lewni. Mae'r Comisiwn Amddiffyn Ymbelydrol Rhyngwladol yn asesu niwed ymbelydrol ar sail y ddadl bod ymbelydredd bob amser yn gallu peri niwed, ni waeth pa mor fychan y ddôs. Mae'n bosib mai ymbelydredd dôs-isel ioneiddiol yw ffynhonnell bwysicaf cancr, diffygion cynenedigol ac anhwyldebau genetig. Dichon mai ychwanegu at y ddôs anochel a dderbynir o ymbelydredd naturiol yw un o ffolinebau mwyaf y ddynolryw.*

## Sefyll gyda'r Innu

Ymwelodd pum cynrychiolydd o Genedl yr Innu, Labrador ag Abertawe ar 10fed Ebrill. Deallai llawer ohonom a'u clywodd yn siarad sut y teimlant am eu brwydr am gydnabyddiaeth fel cenedl a gorfod dioddef hedfan isel gan awyrennau milwrol. Bydd awyrennau'n hedfan dros yr Innu ar uchder o lai na 100 troedfedd ganwaith y dydd ar gyfartaledd. Mae hyn yn effeithio ar eu bywoliaeth, eu hamgylchedd a'u hiechyd eu hunain. Dywedodd Peter Panshue, llywydd yr Innu, mai'r awyrennau milwrol hedfan-isel hyn oedd "y peth mwyaf anfad, mwyaf dychrynllyd a wynebwyd erioed yn yr anialwch, hyd yn oed yng nghof hil yr Innu".

Mae'r Innu yn teimlo'n wanobaith. Fel yr adroddwyd yn Heddwch o'r blaen, mae'n debyg y golyga unrhyw ostyngiad yn lefel yr hedfan isel dros Gymru gynnydd yn y fath hedfan gan yr Awyrlu dros Nitassinan, mamwlad yr Innu. Mae llywodraeth Canada yn derbyn symiau mawr o arian am ganiatau hedfan o'r fath dros Nitassinan.

**HEDDWEITHREDU:**
*Rhowch wybod i'r Weinyddiaeth Amddiffyn a Llywodraeth Canada eich barn am hedfan isel gan yr Awyrlu dros Nitassinan a Chymru. Ysgrifennwch at Malcolm Rifkind AS, Tŷ'r Cyffredin, Llundain SW1A OAA a'r Anrhyd. David Collenette, Gweinidog Amddiffyn Cenedlaethol, Tŷ'r Cyffredin, Ottawa, Canada K1A OA2. Os carech fwy o wybodaeth am yr Innu, cysylltwch â Gillian Metcalf, os gwelwch yn dda (01570) 45576.*

## Dim arfau i Indonesia

Dedfrydwyd Chris Cole, yr ymgyrchydd glew yn erbyn allforio arfau i Indonesia, i chwe mis o garchar am dorri gwaharddeb gan British Aerospace (BAe) a fynnai na ddylai fynd i mewn i eiddo BAe nag annog eraill i wneud hynny. Cerddodd i mewn i faes parcio BAe yn agored fis Tachwedd diwethaf ac roedd wedi ysgrifennu taflen, "Galwad i Weithredu".

Prydain sy'n allforio fwyaf o arfau i Indonesia er gwaethaf y condemnio rhyngwladol a fu ar Indonesia am oresgyn East Timor a meddiannu'r wlad, a pheri marwolaeth mwy na 200,000 o bobl. Mae BAe wedi cyflenwi awyrennau Hawk i Indonesia a ddefnyddir i barhau i ormesu a bomio pobl yn East Timor.

**HEDDWEITHREDU:**
*Gellir danfon llythyron, cardiau ac ati at Chris, i'r cyfeiriad a ganlyn: Chris Cole, Carcharor Rhif PB0538, HMP Pentonville, Caledonian Road, Llundain N7 8TTC*

## Caerwent – man poethaf de Cymru?

Fel y gwyddoch, tan 1992 roedd RAF Caerwent yn ystordy arfau i Fyddin UDA gyda 400 byncar yn dal 25,000 tunnell o gadoffer ar gyfer "stoc theatr wrth gefn" Byddin yr UD. Mae mudiad o'r UD, "ARC Ecology" wrthi'n ymchwilio i'r llygredd a adawyd ar gyn-safleoedd milwrol yr UD yng ngwledydd Prydain. Aeth Hilary Kinaris o CND Casnewydd â chyfarwyddydd a gweithwyr o ARC o gwmpas y safle dros y Pasg ac mae'r mudiad yn mynd i ddefnyddio Deddf Rhyddid Gwybodaeth yr Unol Daleithau i geisio darganfod mwy am yr hyn a storiwyd yng Nghaerwent, a pha lygredd a allai fod ar y safle.

**HEDDWEITHREDU:**
*Os oes gennych unrhyw wybodaeth am lygredd posib yng Nghaerwent, cysylltwch â Jill Stallard os gwelwch yn dda neu ARC Ecology (0117) 9426 116.*

## Y Blaid Lafur ac Ynni Niwclear

Mae negeseuon croes yn dod oddi wrth y Blaid Lafur parthed ei hagwedd tuag at ynni niwclear. Dywedodd swyddfa Tony Blair wrthym bod polisi'r Blaid Lafur o beidio ag adeiladu mwy o orsafoedd ynni niwclear yn ddigyfnewid, ac mewn erthygl yn y Yorkshire Daily Post, dywed:

"Ysgrifennais y polisi hwnnw fy hun cyn etholiad 1992. Wrth gwrs, rhaid adolygu polisi ... ond mae'r ofnau parthed beth a allai fod yn ar arolwg presennol wedi eu gorliwio."

Yn y cyfamser, awgrymodd llefarydd ynni'r blaid, Martin O'Neill ym mis Ionawr y câi'r polisi dileu ynni niwclear yn raddol (pwer niwclear tan 2040OC) ei ollwng. Dywedodd Dr. Jack Cunningham,

y Cysgod-Ysgrifennydd Masnach a Diwydiant: "Ni ellir ysgrifennu polisi ynni ar sail yr amgylchedd yn unig, mae materion diwydiannol, masnachol a chyflogaeth anferth i'w hystyried yma, a felly, yn ddiweddarach yn y flwyddyn, byddwn yn cynhyrchu papur ymgynghori." Dywedodd wrth BBC2 hefyd na ellid diystyru'r posibilrwydd yr adeiledid gorsafoedd ynni niwclear newydd. A fydd diwydiant ynni niwclear a breifateiddiwyd yn effeithio ar y polisi hwn?

**HEDDWEITHREDU:** *Mae angen gofyn cwestiynau. Ysgrifennwch at y tri AS hyn (Tŷ'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA). Ceisiwch ddarganfod beth sydd yn digwydd go iawn, a phan ddarganfyddwch hynny rhowch wybod i CND Cymru, da chi! Os ydych yn aelod o'r Blaid Lafur, gweithiwch i lywio eich plaid yn y cyfeiriad iawn, da chi!*

## Gorsaf Ynni Niwclear yr Wylfa

Dygir cyhuddiadau pellach yn erbyn Nuclear Electric ynglŷn â'r ddamwain y cawsant ddirwy o £20,000 a chostau o £14,000 o'i herwydd y llynedd. Y tro hwn, mae'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch yn mynd â'r cwmni i Lys y Goron Caernarfon yn nes ymlaen eleni. Dywed Helen o PAWB (People Against Wylfa B) bod Nuclear Electric, yn y cyfamser, wedi lawnsio ymgyrch bropaganda anferth yn y papurau lleol. Pwy sy'n talu am yr ymgyrch? Wel, chi, siwr iawn!

## Llun y Pasg gyda Greenpeace yn Sellafield

Roedd digon o gynrychiolwyr o Gymru yn y weithred yn Sellafield i arddangos peryglon plwtoniwm a'r modd y tramgwyddir yr NPT gan y Llywodraeth Brydeinig. Cerddodd mwy na 250 o wrthdystwyr i mewn i'r safle drwy dyllau yn y ffens neu drwy ddringo drosti neu ddringo clwydi, tra chwaraeai cerddoriaeth uchel, hapus o lori gyferbyn â'r prif glwydi. Yr oedd yn frawychus o hawdd myned i mewn i safle sydd â'r gallu i ddinistrio'r holl blaned. Dringodd rhai o'r gwrthdystwyr y gwaith ailbrosesu MOX sydd yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd: roedd rhai ohonynt wedi eu gwisio fel casgenni plwtoniwm melyn. Aeth eraill i mewn i adeilad THORP, dringodd eraill yr ystorfa blwtoniwm a'i haddurno; dringodd rhai i ben adeilad THORP a chrogi yno mewn hamocs; cadwynodd 19 ohonynt eu hunain wrth y lein reilffordd sydd yn dwyn plwtoniwm i mewn i'r gwaith, a chadwynodd rhai eraill eto eu hunain i gynhwysydd â'r label "DANGER PLUTONIUM" a ymddangosodd, mewn modd dirgel, reit ar draws y ffordd i'r safle. Ar ôl oriau lawer, aeth yr heddlu syn â llawer o'r gwrthdystwyr o'r safle yn y bws "Sellafield Sightseer" moethus. Dywedodd un gwrthdystydd o Gymru na welodd erioed y fath le oeraidd ac arswydus. Aed â 73 i wrthdystwyr i'r ddalfa a'u cyhuddo.

Yn y cyfamser ... fel y gwyddoch ... roedd pethau eraill diddorol yn digwydd yn Aldermaston ...

**HEDDWEITHREDU:** *Os oes gennych ddiddordeb mewn gweithredu uniongyrchol yn y dyfodol, cysylltwch â Jill Stallard.*

# Rali Anferth yn Sgwâr Trafalgar 16 Gorffennaf 1995 1pm

## "50 mlynedd o dan y Bom – Mae'n bryd cael Byd Di-niwclear"

Digwyddodd Prawf y Drindod, y ffrwydrad niwclear cyntaf erioed yn anialwch New Mexico ar 16 Gorffennaf 1945. Ar 16 Gorffennaf 1995, nodir hanner canmlwyddiant yr achlysur gan ddigwyddiad CND yn Sgwâr Trafalgar.

"Wele godiad haul na welsai y byd mo'i fath o'r blaen, uwch-haul gwyrdd anferthol yn dringo mewn ffracsiwn o eiliad i uchder o fwy na 8,000, yn codi'n uwch byth nes cyffwrdd â'r cymylau, gan oleuo'r ddaear a'r awyr o gwmpas â goleuni llachar."

Dyna sut y disgrifiodd y New York Times Brawf Trinity, ffrwydrad niwclaer cyntaf y byd a ddigwyddasai'n gynnar yn y bore hwnnw yn anialwch New Mexico.

Rhagwelai gwyddonwyr Los Alamos y defnyddid eu bom yn erbyn Hitler, gan gredu eu bod mewn ras i ddatgloi pwer yr atom, ond er gwaethaf cwymp yr Almaen ar yr 8fed o Fai, parhaodd y Prosiect yn gyflymach byth. Meddai Bernard Feld, ffisegydd: "Wnaeth neb aros a dweud 'Dŷn ni ddim yn ymladd rhyfel â'r Almaen bellach, a ddylem oedi a meddwl?' Roeddem wedi ymroi i'r gweithgaredd yma ... aethom i'r anialwch a'i ffrwydro – ac roeddem yn ecstatig ei fod wedi gweithio."

Roedd y rhaglen i ddatblygu bom niwclaer – o'r enw 'Prosiect Manhattan' – yn tynnu at ei therfyn. Gwnaed Prawf y Drindod er sicrhau bod y bom yn gweithio fel y disgwylid. Nid cyd-ddigwyddiad mo'r ffaith y trefnwyd ef ar y dydd cyn i'r Arlywydd Truman fynd i gynhadledd o arweinwyr adeg-rhyfel yn Potsdam i drafod rheolaeth dros diriogaeth wedi'r rhyfel. Aeth Truman i mewn i'r trafodaethau gyda Churchill a Stalin â safle negydu wedi ei ategu gan y ffaith bod gan yr UD arf atomig y gallai ei ddefnyddio. Roedd Truman yn hyderus bellach y gallai ddwyn y rhyfel yn y Dwyrain Pell i ben heb nemor ddim cymorth gan Rwsia.

Cychwynwyd y paratoadau terfynol i ffrwydro'r bomiau "Little Boy" a "Fat Man" dros Siapan ar y 6ed a'r 9fed o Awst i ddangos y grym a oedd yn nwylo'r UD.

Wedi'r rhyfel, rhybuddiodd Oppenheimer, tad y bom atomig, "os ychwanegir bomiau atomig i arfogaeth byd rhyfelgar, yna fe ddaw'r awr pan fydd y ddynolryw'n melltithio enw Los Alamos a Hiroshima". Sylweddolasai, yn rhy hwyr, yr hyn yr oedd wedi helpu i'w greu.

Gollyngwyd y bom atomig ddwywaith ar boblogaeth sifil, a chynhaliwyd miloedd o brofion niwclear sydd wedi peri dioddefaint anferth i bobl ac anrheithio'r amhylchedd. Rydym yn dal i fyw dan y bygythiad niwclaer 50 mlynedd yn ddiweddarach.

Ddydd Sul 16eg Gorffennag, bydd CND yn coffau gwawr yr oes niwclear – a galw am derfyn i'r gwallgofrwydd hwn. Mynnwn waharddiad llwyr ar arfau niwclear ledled y byd yn ddiymdroi. Bydd 16eg Gorffennaf yn ddiwrnod coffa ac yn ddiwrnod pan fyddwn yn galw sylw ar y ffaith bod paratoi am ryfel yn gwastraffu adnoddau, yn llygru'r ddaear ac yn cyfrannu at dlodi byd-eang.

Am 1.00pm gosodir blodau ar Sgwâr Trafalgar ar ffurf symbol CND a bydd eglwys St Martin-in-the-Fields yn canu 50 cnul ar ei chloch. Bydd barddoniaeth, cerddoriaeth a darlleniadau gan ASau, arweinwyr eglwysi, enwogion a gweithredwyr heddwch rhyngwladol. Hwn fydd cyfarfod diwethaf Hibakusha Siapan – y rhai a oroesodd fomio niwclear Siapan – ar eu taith Brydeinig. Daw'r rali i ben â gweithred ffug-farw yn Sgwâr Trafalgar, gweithred o gydgadernid â'r holl bobl hynny y dinistriwyd eu bywydau a'u tiroedd – ac mae'r dinistr yn parhau – gan dechnoleg niwclear.

- *Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno ag eraill sydd yn teithio i Lundain ar gyfer y digwyddiad hwn, cysylltwch â Jill Stallard. Mae CND wedi paratoi nodiadau cefndir ar Hiroshima sydd yn egluro pam nad oedd yn angenrheidiol defnyddio'r bom i ddiweddu'r rhyfel (ar gael gan Holly Kreider yn CND, 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ (0171)700 2393).*

# Goroeswyr Hiroshima a Nagasaki yn ymweld â Chymru

Ceisia'r byd anghofio'r bomiau niwclaer a ollyngwyd ar Hiroshima a Nagasaki. Nid ŵyr neb yn iawn faint o bobl a laddwyd ac a anafwyd. Amcangyfrifir yn Siapan y bu farw rhyw 140,000 o bobl yn Hiroshima a 70,000 yn Nagasaki o fewn 4 mis i'r bomio. Oddi ar hynny mae 90,000 arall wedi marw o'r ôl-effeithiau parhaus. Hyd yn oed heddiw, mae mwy na 100,000 o bobl yn dal i dderbyn cymorth meddygol.

Hanner canrif yn ôl, collodd cenhedlaeth ifanc gyfan â breuddwydion a gobeithion y cwbl yn fflach y bomiau hynny. Cawsant eu dal yn y strydoedd, mewn meithrinfeydd, ysgolion. ffatrioedd a chartrefi. Yn yr wythnosau sydd i ddod, cawn glywed gan y rheini a gais gyfiawnhau'r drosedd anfad hon. Mae dwyn bywyd, a bygwth diogelwch amgylchedd y ddaear, yn gwbl anfaddeuol.

Mae'r Hibakusha – y rhai a oroesodd – yn teithio'r byd yn ymgyrchu dros ddiarfogi niwclear. Ar yr 11eg o Orffennaf daw rhai o'r Hibakusha â'u neges i Gaerdydd, fel gwesteion CND Cymru. Os ydych yn byw yng Nghaerdydd ac yn gallu cynnig llety am noson, neu os carech gyfarfod â hwy, cysylltwch ag CND Cymru cyn gynted â phosib, os gwelwch yn dda.

## Helpwch Gymru i gofio

Ym mhedwar ban y byd, bydd grwpiau ac unigolion yn coffau Hiroshima a Nagasaki.

Mae digwyddiadau eisoes yn cael eu cynllunio ledled Cymru: gosodir canhwyllau i nofio ar yr afon o'r Bont Haearn yn Nhrefdraeth, Sir Benfro, a phlennir coed yng Nghaerdydd, Abertawe ac Aberystwyth. Cynhelir gwasanaeth ar Ddiwrnod Nagasaki yn Ystradgynlais, a chynllunir digwyddiad ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ar y cyd â Chymdeithas y Cymod.

Nid oes rhaid i'r coffa fod yn ddigwyddiad torfol, amlwg:

**Llusernau ar y dyfroedd** – Yn Siapan, coffeir y meirw drwy osod llusernau a chanhwyllau ynddynt i nofio ar y dyfroedd. Mae hon yn seremoni syml, deimladwy sydd yn neilltuol o effeithiol yn y gwyll. Mae'n debyg o ddenu sylw'r wasg yn lleol.

**Peintio Cysgodion** – gadawodd ymbelydredd y bomiau atomig "gysgodion" y dioddefwyr ar waliau a phalmentydd Hiroshima a Nagasaki. Un ffordd mae pobl wedi coffau'r dyddiad hwn yw drwy beintio "cysgodion" dynol ar y llawr mewn mannau cyhoeddus.

**"Free our Planet of Nuclear Weapons" ac "On a Paper Crane"** – tapiau fideo o Siapan. Gallai unigolion neu grwpiau gynnal bore coffi lle gellid dangos y rhain, neu gallent gynnig mynd â hwy i mewn i ysgolion lleol (oed 13+) a bod ar gael i ateb cwestiynau wedyn. Onid yw hi'n ddyletswydd arnom i annog pobl ifanc sydd, lawer ohonynt, yn tyfu i fyny heb fod hyd yn gwybod beth ddigwyddodd yn Hiroshima a Nagasaki, i weithio dros heddwch a chyflawni eu breunddwydion?

**Garan Bapur** – bydd plant Siapaneaidd yn gwneud cadwynau o 1,000 o aranod papur i goffau'r plant a fu farw. Gallech chi, eich plant neu'ch grŵp wneud garanod papur i'w danfon i gofeb y plant yn Hiroshima. Manylion oddi wrth CND Cymru.

**Hiroshima a Trident** – Wrth gofio dioddefaint Hiroshima a Nagasaki, rhaid i ni bwysleisio na chaiff ddigwydd eto. Mae'r llong danfor Trident gyntaf wedi ei harfogi ac yn hwylio'r moroedd, a bydd yr ail yn profi taflegrau yr haf yma. Cludir ergydion Trident ar draws Prydain bob mis ar y priffyrdd, i'r Alban ac o dde Lloegr.

**Apêl o Hiroshima a Nagasaki am Waharddiad Llwyr a Dileu Arfau Niwclear** – Mae mwy na 100 miliwn o bobl mewn 160 o wledydd wedi arwyddi'r apêl hon sydd yn anelu at adeiladu'r gynghrair ehangaf bosibl drwy weithredu ar y cyd i ddileu arfau niwclear. Apêl Siapaneaidd yw hon y gwêl Prosiect Llysoedd y Byd ei fod yn ategu cyngor y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol bod defnyddio neu fygwth defnyddio arfau niwclear yn anghyfreithlon. Mae copiau o'r apel hon ar gael gan CND Cymru.

- *Mae manylion am yr uchod neu gymorth gyda gwaith i'r wasg ar gael gan Jill Stallard. Rhowch wybod iddi hefyd os ydych yn bwriadu coffau'r dyddiadau hyn, os gwelwch yn dda.*







## Choelia'i fawr – gwnaiff unrhyw hen ddeunydd ymholltus y tro!

Bwriedid i ddatganiad Douglas Hurd fod "y DU wedi atal cynhyrchu deunydd ymholltus i ddibenion ffrwydrol" greu argraff ymhlith cynrychiolwyr yn y Gynhadledd Adolygu Atal Lledaenu Niwclear, ond mewn gwirionedd, mae'n ddiystyr oherwydd:

- Ers blynyddoedd lawer bu Prydain yn ailgylchu deunydd o hen ergydion taflegrau niwclear yn hytrach na chynhyrchu plwtoniwm newydd.
- Mae gan Brydain eisoes stoc o ryw 3 tunnell fetrig o blwtoniwm milwrol – digon ar gyfer rhai cannoedd o arfau niwclear.
- Mae'r llywodraeth yn ddiweddar wedi adnewyddu'r cytundeb amddiffyn cyfrinachol rhwng yr UD a Phrydain sydd yn ei galluogi i sicrhau wraniwm coeth iawn o'r UD.
- Mae gan Brydain y gallu o hyd i drosglwyddo deunydd o stoc sifil i stoc milwrol am "resymau diogelwch gwladol" – gallu y mae wedi mantesio arno ddim llai na 571 o weithiau er 1979!

Mae Sellafield yn dal i allu all-dynnu plwtoniwm "gradd arfau".

Pe bai i'r llywodraeth osod adweithyddion milwrol Calder Hall a Chapelcross o dan arolygaeth ryngwladol, yna efallai y gallem ddechrau bod â rhywfaint o hyder yng ngeiriau Mr Hurd.

**HEDDWEITHREDU:**

- *Rhowch gyhoeddusrwydd i'r ffeithiau hyn drwy ysgrifennu at y wasg*
- *Ysgrifennwch at Dougals Hurd a'ch AS a'ch ASE. Nodwch oferedd cyhoeddiad Mr Hurd.*

## "Newidian nhw byth be dwi wedi'i wneud – Does dim troi'n ôl"

### *Mordechai Vanunu*

Ymwelodd dirprwyaeth ryngwladol â charchar Ashkelon yn ddiweddar lle mae Mordechai Vanunu yn cael ei gadw ar wahân i bawb arall am roi manylion am gyfrinachau niwclear Israel i bapur-newydd ym 1986. Gwrthodwyd caniatad i'r ddirprwyaeth, a oedd yn cynnwys yr actores Suzannah York, gael gweld Vanunu. Roeddynt wedi gobeithio galw sylw at ei achos a chyflwyno iddo ei Wobr Heddwch Sean MacBride. Fodd bynnag, cawsant gyfarfod ag Arlywydd Israel a rhoddodd y cyfryngau yn Israel gryn sylw i'w hymweliad. Ymwelodd Dedi Zukar, AS Israeli sydd yn Weinidog yr Heddlu, â Vanunu yn y carchar hefyd. Mae'r digwyddiadau hyn wedi bod yn galondid mawr i Vanunu ac mae wedi dechrau ateb llythyron. Dyma a ysgrifennodd at Suzannah York:

### Ionawr 1af 1995

"Dim ond gair i ddiolch i chi a danfon fy nghyfarchion a dweud gymaint y gwerthfawrogaf yr hyn a ddwedsoch amdanaf. Rwyf am ddweud wrthych mai chi yw'r un sydd yn gweld ac yn deall fy ngweithred yn yr un modd ag y credais ac y gwneuthum innau. Pan ddarllenais beth ddwedsoch chi, roedd fel pe bawn i'n siarad fy hun. Peth mawr a gwych yw cael pobl fel chi sydd yn gweithredu ac yn dod i helpu ar fy rhan i ac ar ran fy ngweithred. Felly rwyf yn ysgrifennu atoch i'ch cefnogi chi a'r holl bobl hynny sydd am fy nghefnogi i. Mae eich gweithered yn siarad mor ddewr a chlir ac uchel yn fy ngwneud i'n hapus iawn ac yn rhoi nerth a chalondid i mi i ddal ati yn yr "oes dywyll" hon. Rwyf mewn carchar ar fy mhen fy hun, ac nid wyf hyd yn oed yn siarad ac ysgrifennu. Mae fy nhawelwch yn swnllyd iawn am ddyn a weithredodd ac a lwyddodd i wneud yr hyn a wneuthum i. Ni all neb na dim byd ddistewi fy ysbryd, fy meddwl. Nid oes terfynau na charchardai ar yr ysbryd dynol – yr wyf yn dal yn fyw, yr wyf yn disgwyl cael fy rhyddhau. Ni chawsoch chi hyd yn oed fy ngweld. Peidiwch â phoeni. Dyna'u ffordd hwy o geisio fy nhorri i a'm cefnogwyr a'm cysur, ond fel yr ysgrifennais ar y dechrau, "Newidian nhw byth be dwi wedi'i wneud – does dim troi'n ôl".

Fel y dywedsoch chi, mae'n feincnod, yn safon, ond yn awr, chi yw'r safon. Chi a phawb sydd yn cefnogi fy ngweithred yn erbyn lledaeniad niwclear, yn erbyn cyfrinachau anghyfreithlon. Rydych yn dweud wrth y byd nad oes, yn y materion hyn, ddim terfynau, dim cenhedloedd. Y mae'n fater i bob bod dynol, i'r holl bobloedd. Mae bod yn erbyn cyfrinachau niwclear yn golygu bod o blaid gwladwriaethau gwirioneddol ddemocrataidd. Yn awr, wedi'r Rhyfel Oer, nid oes gelynion i'r gwladwriaethau democrataidd. Yr unig elynion sydd ar ôl o'r Rhyfel Oer hwn yw'r cyfrinachau. Ni all cyfrinachau a democratiaeth gyd-fyw. Mae cadw dyn ar ei ben ei hun mewn carchar yn gyfrinach, yn wrth-ddemocrataidd, yn annynol. I wneud y byd yn fwy democrataidd, rhaid bod llai a llai o gyfrinachau. Lle mae llai o gyfrinachau, ceir mwy o hawliau dynol.

Felly, diolch yn fawr iawn i bawb sydd yn sefyll y tu ôl i mi ac yn gweithio am fy rhyddhad.

*CARIAD HEDDWCH*
*Mordechai Vanunu*

- *Cyfeiriad Mordechai Vanunu yw: d/o Carchar Ashkelon, Ashkelon, Israel*




## Yr Eisteddfod Genedlaethol Awst 1995, Bae Colwyn

Angen cymorth a llety!

Fel arfer, bydd CND Cymru yno.

Mae angen cymorth arnom i werthu nwyddau i godi arian ac i ymgyrchu. Mynediad i'r maes yn rhad ac am ddim. Os ydych yn siarad Cymraeg neu'n dysgu, ac os gallech sbario hanner diwrnod – neu fwy – i helpu, carem glywed gennych cyn gynted â phosib.

Mae'r rheini ohonom fydd yn teithio o'r De neu'r Canolbarth yn edrych am lety o fewn rhyw 10 milltir i'r Maes yn ystod yr wythnos honno.

Byddai unrhyw beth, o le i wersylla neu ar lawr, i ystafelloedd cyfarch yn yr Ashmount yn wych.

Os gellwch ein helpu, cysylltwch ag CND Cymru cyn gynted â phosib, os gwelwch yn dda.

## CYSWLLT CND CYMRU

Y SIOP HEDDWCH,
56 MACKINTOSH PLACE, ROATH,

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL
**Jill Stallard.** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 OLR (015505) 260
**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gynigion o gymorth? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os gwelwch yn dda:**

GOGLEDD CYMRU
**Dave Andrews** (01978) 310491

CANOLBARTH
**Olwen Davies** (01970) 611994
**Ian Campbell** (01970) 871360
**Rod Stallard** (015505) 260

DE CYMRU
**Ray Davies** (01222) 889514

ADDYSG HEDDWCH
**Mary Jones** (01792) 774687

AELODAETH
**Carol Handcock** (01633) 881741

MUDIADAU CYSYLLTIEDIG
**Rhoda Jones** (01766) 762739

MASNACHU
**Jan Henderson** (01792) 830330

TREASURER
**Jean Bryant**
16 Ty'n y Cymer Close,
Y Porth, Rhondda CF39 9DF

## Heddwch

- Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Gweithredu Heddwch yn ymddangos ym mis Medi 1995
- Danfoner cyfraniadau at Jill Stallard (cyfeiriad uchod) os gwelwch yn dda. Ffoniwch Jill am y dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf.
- Croesewir cyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur. Cysyllter â Jill neu Mike Southern (01222 222782) am fanylion
- Croesewir pob cymorth gyda'r gwaith golygyddol.

**Rwyf eisiau ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw ______________________

Cyfeiriad ______________________

______________________

______________________ Côd Post ________

Ffôn ______________________ Amgaeaf siec/GP am ________

yn daladwy i CND Cymru. Cwpl £15; Oedolyn £10; Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid £3. Dychweler i CND Cymru, Aelodaeth, 3 Millbrook Court, Magwyr, Gwent NP6 3JN.

# DYDDIADAU DYDDIADUR

## HAF 1995

**Byddwn yn falch o gynnwys unrhyw gyfraniadau i'r dyddiadur hwn gan fudiadau eraill o'r un tueddfryd sydd yn gweithio dros heddwch a chyfiawnder amgylcheddol yng Nghymru.**

**Mehefin 8** Dydd Moroedd y Byd i wneud pobl yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd a bregusrwydd ein moroedd a'r hyn sy'n effeithio arnynt. *Cysyllter â Chyfeillion Bae Ceredigion am weithgareddau (01970 828026)*

**Mehefin 20** Llys y Byd yn cychwyn Yr Achos Niwclear – nid yw'n rhy hwyr i gasglu mwy o ddatganiadau. *Cysyllter â Phrosiect Llys y Byd (01323 844269) – tan fis Medi o leiaf!*

**Mehefin 24-25** 11eg Cynhadledd ar Ymbelydredd Lefel isel a Iechyd, County Hotel, Carlisle – *mwy o wybodaeth: 01229 833851*

**Mehefin 29-Gorffennaf 9** Taith gerdded Ray, Wendy, Tad a Newt dros Blant Chernobyl a Môr Iwerddon Di-niwclear (gweler y stori). *Am fanylion pellach, cysyllter â Ray Davies (gweler rhestr gyswllt)*

**Gorffennaf 1** Diwrnod Cylchfeydd Di-niwclear y Byd

**Gorffennaf 15** 11.00am Cyfarfod Blynyddol CND Cymru, Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Llandrindod, Powys. Croeso i aelodau a chynrychiolwyr mudiadau cysylltiedig. *Am fwy o wybodaeth, cysyllter â'r Ysgrifennydd Cyffredinol (gweler rhestr gyswllt)*

**Gorffennaf 16** Taith Gerdded Tibet. Helpwch i godi arian a chadw Tibet ar yr agenda ryngwladol. Teithiau cerdded ledled Prydain. *Am rai Cymru cysyllter â: Mynydd Du/ Bannau Brycheiniog – Richard Greaves (01497 847418); Ceredigion – Ali Jones (01239 79604)*

**Gorffennaf 16** (Dydd Sul) Rali yn Sgwâr Trafalgar "Mae'n Bryd i Fyd Di-Niwclear" (gweler y stori). *Mwy o wybodaeth: 0171 700 2393*

**Gorffennaf 22-25** Gŵyl Heddwch Morgannwg – dechrau ar yr 22ain gydag adloniant stryd ger Carafan y Siop Heddwch yn yr Ais, Caerdydd. *Am fanylion pellach am ddigwyddiadau eraill, ffoniwch Matt Holloway (01222 599623)*

**Awst 5** Penblwydd Hapus 70 oddi wrth CND Cymru i Bobl y Coed. *Mwy o wybodaeth am y dathliadau gan John Gurr (01974 282437)*

**Awst 5-13** Stondin CND Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Bae Colwyn – angen cymorth a llety

**Awst 5** CND Abertawe. Plannu coed i Goffau Hanner Canmlwyddiant Dechrau'r Oes Atomig. *Cysyllter ag CND Abertawe (01792 367807)*

**Awst 19/20** Stondin CND yng Ngŵyl Pontardawe. Galwch heibio i'n gweld. *Cysyllter â Masnachu CND am fwy o wybodaeth*